# Y Pwyllgor Cyllid

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 4 Gorffennaf 2012** |
| Amser: | **09:00 - 11:00** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_300000_04_07_2012&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Jocelyn Davies (Cadeirydd)**<br>**Peter Black**<br>**Christine Chapman**<br>**Paul Davies**<br>**Mike Hedges**<br>**Julie Morgan**<br>**Ieuan Wyn Jones**<br>**Jenny Rathbone** |
| Tystion: | **Jane Hutt, y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ**<br>**Jeff Andrews, Cynghorydd Polisi Arbenigol, Llywodraeth Cymru**<br>**Margaret Davies, Llywodraeth Cymru**<br>**Matthew Denham-Jones, Llywodraeth Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Gareth Price (Clerc)**<br>**Daniel Collier (Dirprwy Glerc)**<br>**Martin Jennings (Ymchwilydd)**<br>**Eleanor Roy (Ymchwilydd)**<br>**Joanest Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

### 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon
1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Ann Jones; bu Jenny Rathbone yn dirprwyo ar ei rhan.

### 2. Cyllideb Atodol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012-2013 (Haf 2012)

2.1 Croesawodd y Cadeirydd Jane Hutt AC, y Gweinidog Cyllid; Jeff Andrews, Cynghorydd Polisi Arbenigol; Margaret Davies, Pennaeth Polisi'r Gyllideb; a Matthew Denham Jones, Pennaeth Rheoli a Chofnodi Cyllidebau.

2.2 Bu'r Aelodau'n craffu ar waith y Gweinidog.

**Camau i'w cymryd:**

Cytunodd Llywodraeth Cymru i:

- Gyhoeddi manylion y prosiectau sy'n cael cyllid gan rownd 6 o'r gronfa buddsoddi i arbed, gan gynnwys faint a gafodd pob prosiect, yr arbedion a ragwelir, manylion y proffil talu'n ôl, a manylion y gwerthusiad sydd ar y gweill o'r gronfa buddsoddi i arbed;
- Darparu gwybodaeth eglurhaol am y buddsoddiad o £1 miliwn yn yr un corff amgylcheddol, a grybwyllwyd gan y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn ei gyfarfod ar 27 Mehefin 2012;
- Cadarnhau pryd y bydd y Pwyllgor yn cael adroddiad diwedd y flwyddyn sy'n rhoi manylion ynghylch amrywiadau rhwng y gwariant gwirioneddol a chyllideb atodol olaf y flwyddyn.

## 3. Papurau i'w nodi

3.1 Cytunodd y Pwyllgor i ateb yr ohebiaeth gan Drysorlys ei Mawrhydi ynghylch yr ymgynghoriad ar bwerau benthyca newydd i'r Alban, gan amlinellu'r hyn a ganfu'r ymchwiliad i Fenthyca Darbodus a Dulliau Arloesol o Ddefnyddio Arian Cyfalaf.

3.2 Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch ei ymchwiliad i Gyllid Datganoledig: Pwerau Benthyg a Dulliau Arloesol o Ddefnyddio Arian Cyfalaf.

3.3 Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch cyllideb atodol 2011-2012 (gwanwyn 2012), a fyddai'n llywio'i waith o graffu ar gyllideb atodol 2012-2013.

3.4 Cadarnhaodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod blaenorol.

## 4. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

Eitemau 5 a 6.

## 5. Cyllideb Atodol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012-2013 (Haf 2012) - Trafod y dystiolaeth

5.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod y dystiolaeth ar gyllideb atodol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012-2013 (haf 2012).

## 6. Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-2014 - Opsiynau ar gyfer penodi ymgynghorydd arbenigol

6.1 Cytunodd y Pwyllgor i benodi cynghorydd technegol i gynorthwyo â'i waith o graffu ar gyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-2014.

**Trawsgrifiad**